14. Rheoli gweithdrefn absenoldeb yn gysylltiedig ag iechyd	21
15. Atodiad 1 Archwiliadau meddygol ac atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol.....	24

1. Diffiniad

Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd y BBC yn cefnogi gweithwyr i gynnal eu hiechyd a'u lles ac i sicrhau lefelau presenoldeb derbyniol yn y gwaith. Mae hefyd yn nodi'r broses ar gyfer rheoli absenoldebau ysbeidiol tymor byr sy'n gysylltiedig ag ieched, neu absenoldeb hirdymor sy'n gysylltiedig ag ieched.

2. Egwyddorion

- *Mae gan reolwyr gyfrifoldeb i gefnogi a rheoli ieched a lles eu timau a chyflawni lefelau derbyniol o bresenoldeb. Dylid rheoli materion ac absenoldebau sy'n gysylltiedig ag ieched yn sensitif;*
- *Mae gweithwyr yn gyfrifol am reoli eu hieched a'u lles eu hunain, ac fe'u hanogir i fynd ati i ddefnyddio adnoddau cefnogol sy'n gysylltiedig â lles a ddarperir gan y BBC ac i ymgysylltu'n adeiladol ag ymdrechion y rheolwr i gefnogi a rheoli eu lles a'u presenoldeb;*
- *Mae'r BBC yn darparu ystod o adnoddau lles cefnogol;*
- *Mae Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol (IG) y BBC yn un o'r adnoddau cefnogol a ddarperir yn y Strategaeth Lles. Gall rheolwyr atgyfeirio gweithwyr i'r gwasanaeth IG i gael cyngor a/neu archwiliad ar unrhyw adeg yn ystod eu cyflogaeth. Gall gweithwyr hefyd ofyn i'w rheolwr eu cyfeirio at ieched galwedigaethol os oes ganddynt bryder am eu gwaith a'u hieched;*
- *Os yw gweithiwr o'r farn bod anabledd neu unrhyw gyflwr meddygol yn effeithio arnynt, sy'n effeithio ar eu gallu i wneud eu gwaith, dylent hysbysu eu rheolwr;*
- *Os yw gweithwyr yn methu â dilyn y gofynion a nodir yn y polisi hwn neu os oes gan y rheolwr resymau y gellir eu cyfiawnhau i amau cywirdeb y dystiolaeth a ddarperir, gellir defnyddio **Polisi Disgyblu'r BBC**.*
- *Defnyddir y polisi hwn yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a **Llawlyfr Diogelu Data'r BBC**.*

3. Absenoldeb yn gysylltiedig ag ieched

Anabledd

Mae'r BBC yn cydnabod y gallai absenoldeb sy'n gysylltiedig ag ieched ddeillio o anabledd.

Rhoddir ystyriaeth arbennig i weld a yw unrhyw absenoldeb yn gysylltiedig ag anabledd ar bob cam o'r weithdrefn ar gyfer rheoli ieched a phresenoldeb fel y nodir yn y polisi hwn, gan gynnwys a ellid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol i ofynion y rôl neu agweddau eraill ar weithio yn y BBC, a fyddai'n darparu cefnogaeth a/neu'n cynorthwyo i sicrhau lefelau presenoldeb derbyniol. Dylai'r rheolwr ddarparu cefnogaeth briodol os cyrhaeddir pwyntiau sbarduno. Pan gyrhaeddir pwynt sbarduno, dylai'r rheolwr ofyn am gyngor annibynnol gan Iechyd Galwedigaethol, gan gynnwys a ellid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r gweithdrefnau a nodir yn y polisi hwn ar gyfer rheoli presenoldeb. Mae'r BBC yn cydnabod y

gallai absenoldeb salwch fod yn gysylltiedig ag anabledd. Pan fydd gweithiwr yn anabl neu'n dod yn anabl yn ystod ei gyflogaeth, defnyddir Canllaw'r BBC i Gefnogi, Cadw a Recriwtio Staff Anabl.

Beichiogrwydd

Rhoddir ystyriaeth arbennig i weld a yw unrhyw absenoldeb yn gysylltiedig â beichiogrwydd ar bob cam o'r weithdrefn ar gyfer rheoli iechyd a phresenoldeb fel y nodir yn y polisi hwn. Dylai'r rheolwr ddarparu cefnogaeth briodol os cyrhaeddir pwyntiau sbarduno. Pan gyrhaeddir pwynt sbarduno oherwydd absenoldeb yn ymwneud â beichiogrwydd cyn genedigaeth, dylid rheoli cefnogaeth yn anffurfiol.

4. Gweithdrefn adrodd

Ar eu diwrnod gwaith cyntaf o absenoldeb salwch, rhaid i weithwyr hysbysu eu rheolwr, neu unigolyn dynodedig arall, o leiaf 30 munud cyn bod disgwyl iddynt ddechrau gweithio neu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Dylai'r gweithiwr gadarnhau'r rheswm neu natur ei absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd a hyd disgwylidig yr absenoldeb.

Dylent hefyd roi eu manylion cyswllt cyfredol i'w rheolwr. Rhaid i weithwyr barhau i hysbysu eu rheolwr am eu cynnydd a'u dyddiad dychwelyd i'r gwaith tebygol.

Yn ystod cyfnodau o absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd, gall eu rheolwr neu AD gysylltu â gweithwyr, er mwyn trafod eu lles.

Gall rheolwyr gysylltu â gweithwyr yn ystod cyfnodau o absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd ar gyfer unrhyw ymholiad brys sy'n gysylltiedig â gwaith os nad oes unrhyw ddewis ymarferol arall. Dylai'r cyswllt fod ar lefel resymol gan gadw mewn cof bod y gweithiwr yn absennol oherwydd ei iechyd.

Gall gweithwyr hunan-ardystio, ar lafar neu'n ysgrifenedig, gyfnodau o absenoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd sy'n saith niwrnod calendr yn olynol, neu lai. Ar gyfer cyfnodau o absenoldeb cysylltiedig ag iechyd sy'n wyth diwrnod calendr yn olynol neu fwy, rhaid i weithwyr ddarparu Datganiad Ffit i Weithio wedi'i lofnodi (Nodyn Ffitrwydd).

Rhaid i'r rheolwr sicrhau bod yr absenoldeb a'r rheswm/categori yn cael eu cofnodi yn y system recordio adrannol.

Bydd absenoldeb na chafodd ei hysbysu yn unol â'r weithdrefn adrodd uchod yn cael ei drin fel absenoldeb anawdurdodedig. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y polisi [Cefnogi Bywydau Gwaith](#).

5. Tâl salwch statudol

Mae Tâl Salwch Statudol (TSS) yn isafswm taliad wythnosol y mae'n rhaid i gyflogwyr ei dalu am 28 wythnos i weithwyr cymwys. Efallai y bydd gan weithwyr sydd wedi'u heithrio rhag derbyn TSS, neu sydd wedi disbyddu eu hawl i TSS, yr hawl i gael budd-daliadau salwch gan y wladwriaeth.

6. Tâl absenoldeb y BBC sy'n gysylltiedig ag iechyd

Ar yr amod bod gweithwyr wedi cydymffurfio â'u rhwymedigaethau yn y polisi hwn, bydd y BBC yn talu 18 wythnos o dâl llawn a 9 wythnos o hanner tâl am bob 12 mis treigl yn ystod cyfnodau o absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd, mewn cyfnod treigl o 12 mis. Mae hyn yn golygu, ar yr adeg y gofynnir am dâl salwch, y bydd yn rhaid i chi edrych yn ôl dros y 12 mis diwethaf i weld faint o hawl â thâl sydd ar gael.

Pan fydd Tâl Salwch y BBC wedi'i ddisbyddu yn ystod cyfnod o absenoldeb parhaus, bydd yr hawl dreigl yn ailgychwyn ar ôl dychwelyd i'r gwaith.

Mae Tâl Absenoldeb y BBC sy'n gysylltiedig ag iechyd yn dâl blynyddol sylfaenol ar yr adeg y mae absenoldeb cysylltiedig ag iechyd yn cychwyn ac unrhyw lwfansau parhaus a fyddai fel arfer yn cael eu talu yn ystod absenoldeb awdurdodedig; nid yw'n cynnwys unrhyw daliadau ychwanegol e.e. taliadau nos. Mae Tâl Absenoldeb Iechyd y BBC yn cynnwys unrhyw Dâl Salwch Statudol.

Os yw gweithiwr yn cyrraedd terfynau ei Dâl Absenoldeb Iechyd y BBC neu TSS, dylai'r rheolwr eu cynghori'n ysgrifenedig, gan roi o leiaf 1 mis o rybudd.

7. Absenoldeb yn gysylltiedig ag iechyd a gwyliau blynyddol

Efallai y credydir absenoldeb i weithwyr sy'n absennol oherwydd eu hiechyd yn ystod cyfnod o wyliau blynyddol, os ydynt yn darparu Datganiad Ffit i Weithio (Nodyn Ffitrwydd) neu dystysgrif feddygol debyg gan feddyg lleol (os yw'r gweithiwr oddi cartref) yn cadarnhau dyddiadau'r afiechyd. Ni dderbynnir hunan-ardystiad fel tystiolaeth o dan yr amgylchiadau hyn.

Gall gweithwyr na allant gymryd eu gwyliau yn y flwyddyn y cafodd ei gronni oherwydd absenoldeb hirdymor cysylltiedig ag iechyd, gario uchafswm o 20 diwrnod (sy'n cyfateb i 140 awr) o wyliau blynyddol drosodd i'r flwyddyn wyliau ganlynol. Dylai'r rheolwr gymeradwyo'r gwyliau sy'n cael ei gario drosodd ymlaen llaw, a rhaid ei gymryd cyn pen 18 mis o ddiwedd y flwyddyn wyliau y cafodd ei gronni neu bydd yn darfod.

8. Amser i ffwrdd ar gyfer apwyntiadau meddygol

Dylai gweithwyr geisio trefnu apwyntiadau y tu allan i'w horiau gwaith lle bynnag y bo hynny'n bosibl; fodd bynnag, lle nad yw hyn yn bosibl, dylid cymryd dull hyblyg a rhesymol gan y rheolwr a'r gweithiwr i hwyluso presenoldeb mewn apwyntiadau/triniaethau meddygol. Dylid derbyn ceisiadau am amser i ffwrdd â thâl heb fod angen cymryd gwyliau blynyddol na defnyddio cloeon. Dylid trafod amser i ffwrdd ar gyfer triniaethau rheolaidd neu apwyntiadau meddygol gyda'r rheolwr llinell a dylid eu rheoli'n sensitif ac yn sympathetig mewn ffordd sy'n blaenoriaethu lles y gweithiwr.

9. Clefydau Heintus

Dylai gweithwyr sydd wedi bod mewn cysylltiad agos (e.e. ag aelod o'u teulu agos) â chlefyd heintus neu ymledol, fel twbercwlosis, brech yr ieir, y frech goch, llid yr ymennydd neu gyflwr difrifol arall y gellid ei

drosoglwyddo i gydweithwyr, hysbysu eu rheolwr a gofyn am gyngor gan eu meddyg neu Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol y BBC ar yr angen i gadw draw o'r gwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw un o'u cydweithwyr yn feichiog. Os yw'n ofynnol iddynt beidio â mynychu'r gwaith fel mesur rhagofalus, rhoddir absenoldeb â thâl iddynt.

Rhaid i weithwyr ddilyn y gweithdrefnau arferol ar gyfer absenoldeb salwch os ydynt yn dioddef o glefyd heintus neu ymledol. Os cânt eu cyngori i beidio â gweithio, ni all gweithwyr ddychwelyd heb ganiatâd eu meddyg neu Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol y BBC.

10. Absenoldeb yn gysylltiedig ag iechyd oherwydd damwain pan nad oeddent ar ddyletswydd

Os oes gan weithiwr gyfnod o absenoldeb yn gysylltiedig ag iechyd o ganlyniad i ddamwain neu anaf a achoswyd gan drydydd parti, y gallai iawndal fod yn daladwy mewn perthynas ag ef, rhaid i weithwyr hysbysu eu rheolwr ar unwaith a'u hysbysu am y ffaith honno ac am unrhyw hawliad cyfaddawd, setliad neu ddyfarniad a wnaed neu a ddyfarnwyd mewn cysylltiad ag ef, a'r holl fanylion perthnasol y gall y BBC ofyn amdanynt o fewn rheswm.

Bydd y gweithiwr yn gymwys i gael Tâl Absenoldeb Iechyd y BBC. Rhaid i'r gweithiwr wneud ymdrechion rhesymol i adfer iawndal gan y trydydd parti am enillion coll dros unrhyw gyfnod y mae'r gweithiwr wedi, neu am gael tâl Absenoldeb Iechyd y BBC. Rhaid i'r gweithiwr ad-dalu unrhyw iawndal a adenillwyd am enillion coll i'r BBC, yn ychwanegol at dâl salwch statudol a llai unrhyw gostau rhesymol y mae'n eu hwynebu wrth wneud hynny. Rhaid i'r gweithiwr roi gwybod i'w reolwr am gychwyn, cynnydd a chanlyniad unrhyw ymdrechion i adfer iawndal.

Os ad-delir y tâl absenoldeb iechyd i'r BBC yn llawn, ni fydd y cyfnod o absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd yn cael ei gynnwys wrth gyfrifo a yw gweithiwr wedi cyrraedd ei derfyn Tâl Absenoldeb Iechyd y BBC. Fodd bynnag, os na wneir ad-daliad neu y gwneir ad-daliad yn rhannol, bydd y BBC yn penderfynu i ba raddau y bydd y cyfnod o absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd yn cael ei ystyried, yn ôl ei ddisgresiwn.

11. Rheoli lles a phresenoldeb

Fel y nodir yn yr egwyddorion uchod, dylai rheolwyr fynd ati i gefnogi a rheoli lles eu tîm. Dylai staff ymgysylltu'n adeiladol â'u rheolwr a defnyddio'r adnoddau lles a ddarperir gan y BBC a nodir yn y Strategaeth Lles. Mae hyn yn cynnwys atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol (gweler atodiad 1 am ragor o fanylion ynghylch atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol)

12. Sgwrs dychwelyd i'r gwaith

Pan fydd aelod o staff wedi cymryd unrhyw gyfnod o absenoldeb yn gysylltiedig ag iechyd, dylai'r rheolwr ystyried cynnal a dychwelyd sgwrs dychwelyd i'r gwaith. Mae'r sgwrs yn gefnogol a'i bwriad yw deall y rheswm dros absenoldeb a pha gefnogaeth y gellir ei rhoi i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith a lleihau'r gobaith o absenoldeb pellach.

Gellir ystyried atgyfeiriad i Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol y BBC ar yr adeg hon er mwyn cael cyngor meddygol annibynnol ar ba gymorth neu fesurau ychwanegol y gellir eu hystyried i gefnogi lles a

phresenoldeb. Gall y rheolwr hefyd gyfeirio'r aelod o staff at yr adnoddau sydd ar gael a allai fod o gymorth yn y Strategaeth Lles.

13. Dychwelyd yn raddol i'r gwaith

Pan fo aelod o staff wedi bod, neu yn absennol o'r gwaith am resymau cysylltiedig ag iechyd, dylai'r rheolwr ystyried a oes angen dychwelyd i'r gwaith yn raddol neu a fyddai'n hwyluso dychwelyd i'r gwaith yn gynnar ac yn barhaus. Gellir cael cyngor penodol ar ddychwelyd i'r gwaith a rhinweddau dull graddol trwy atgyfeirio at Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol y BBC.

Gall dychwelyd yn raddol gynnwys:

- Gweithio llai o oriau nag oriau cytundebol arferol aelodau staff - fel arfer lle mae'r absenoldeb cysylltiedig ag iechyd yn achosi neu wedi arwain at flinder;
- Gweithio oriau cytundebol llawn ond gyda llai o lwyth gwaith;
- Gweithio yn eu cartrefi neu gydag amseroedd cychwyn/gorffen wedi'u newid.

Telir am ddychwelyd yn raddol i'r gwaith ar gyfradd tâl llawn arferol y gweithiwr am hyd at 4 wythnos. Rhaid i ddychweliadau graddol i'r gwaith gael eu llywio a'u hargymell gan atgyfeiriad Iechyd Galwedigaethol neu Nodyn Ffitrwydd Meddyg Teulu.

14. Rheoli gweithdrefn absenoldeb yn gysylltiedig ag iechyd

Dylai rheolwyr a staff ddefnyddio adnoddau yn y Strategaeth Lles i fynd ati i reoli eu lles a chyflawni lefelau presenoldeb derbyniol o ddydd i ddydd. Os oes gan aelod o staff lefelau absenoldeb yn unol ag unrhyw un o'r sbardunau ymyrraeth isod, dylai fod yn ysgogiad i'r rheolwr a'r aelod staff y gallai dull mwy strwythuredig fod yn fwy effeithiol.

- Cyfnod o absenoldeb hirdymor sy'n gysylltiedig ag iechyd o 4 wythnos (28 diwrnod calendr) neu fwy;
- 3 achos neu fwy o absenoldeb tymor byr sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn cyfnod treigl o 12 wythnos;
- 5 achos neu fwy o absenoldeb tymor byr sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn cyfnod treigl o 12 mis;

Dylai'r broses tri cham a amlinellir isod gael ei chaniatau felly. Cyfeiriwch at Adran 3 ynghylch Anabledd neu Feichiogrwydd.

Adolygiad 1-1 Ffurfiol

Bydd y rheolwr yn trefnu adolygiad gyda'r gweithiwr i drafod ei iechyd a'i absenoldeb cysylltiedig. Bydd yr adolygiad anffurfiol yn cael ei gynnal mewn da bryd yn dilyn yr absenoldeb.

Yn achos absenoldeb ysbeidiol tymor byr, dylai'r rheolwr ystyried a oes angen cyngor iechyd galwedigaethol ar hyn o bryd i helpu i ddeall unrhyw gyflyrau iechyd gwaelodol a sut y gellir dychwelyd yn barhaus i'r gwaith neu wella lefel presenoldeb. Mewn achosion o absenoldeb tymor hir, rhaid atgyfeirio at iechyd galwedigaethol fel mater o drefn. Dylai'r rheolwr a'r aelod staff hefyd ystyried a fyddai'n fuddiol manteisio ar unrhyw un o ddarpariaethau lles y BBC a amlinellir yn y strategaeth Lles.

Dylai'r drafodaeth fod yn gefnogol a'i bwriad yw deall y rheswm (rhesymau) dros yr absenoldeb yn llawn; anghenion iechyd uniongyrchol yr aelod staff; prognosis ar gyfer dychwelyd i'r gwaith a/neu lefelau presenoldeb gwell; a pha gymorth y gellir ei roi i hwyluso dychwelyd i'r gwaith a/neu leihau'r posibilrwydd o absenoldeb pellach. Dylai'r rheolwr hefyd ystyried hanes gwasanaeth a phresenoldeb llawn y gweithiwr wrth farnu a oes angen cymryd camau pellach ai peidio.

Bydd y rheolwr yn cadarnhau'r trafodaethau ac unrhyw gamau y cytunwyd arnynt i'r gweithiwr yn ysgrifenedig, i hwyluso gwelliannau yn lefelau iechyd a phresenoldeb y gweithiwr.

Mewn achosion o absenoldeb ysbeidiol tymor byr, bydd y rheolwr yn cadarnhau'r lefel dderbyniol o bresenoldeb yn y dyfodol ac unrhyw gyfnod adolygu (a all fod hyd at 9 mis) cyn cynnal cyfarfod adolygu ffurfiol. Dylai'r cyfnod adolygu a lefel dderbyniol o bresenoldeb yn y dyfodol gael eu llywio gan gyngor meddygol, a'r lefelau presenoldeb a nodir yn y pwyntiau sbarduno uchod (pro rata). Yn ystod y cyfnod adolygu, dylai'r rheolwr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gweithiwr am ei gynnydd yn erbyn y lefelau presenoldeb disgwyledig a derbyniol.

Mewn achosion o absenoldeb tymor hir, bydd y rheolwr yn cadarnhau unrhyw gyfnod a dyddiad adolygu ar gyfer adolygiad dilynol neu Gyfarfod Adolygu Ffurfiol os oes angen un. Fel rheol, dylid cynnal cyfarfod adolygu ffurfiol ddim mwy na 6 wythnos ar ôl yr adolygiad anffurfiol, os parheir i fod yn absennol.

Mewn achosion o absenoldeb tymor byr a thymor hir, gall y rheolwr ystyried ei bod yn briodol cynnal mwy nag un cyfarfod adolygu anffurfiol cyn symud ymlaen i gyfarfod adolygu cam 2.

Cyfarfod Adolygu Ffurfiol

Os na fydd gwelliant digonol yn y presenoldeb yn ystod y cyfnod adolygu, bydd y rheolwr yn trefnu cyfarfod Adolygu Ffurfiol gyda'r gweithiwr i archwilio'r rhesymau dros yr absenoldeb parhaus neu fynych.

Mae gan aelodau staff hawl i gael cynrychiolydd undeb llafur achrededig neu gydweithiwr (ac eithrio cyfreithiwr wrth ei waith) mewn unrhyw gyfarfod adolygu ffurfiol os dymunant.

Yn yr un modd â'r adolygiad anffurfiol, dylai'r prif ffocws fod ar hwyluso gwell iechyd a lles, dychwelyd i'r gwaith a/neu lefelau presenoldeb gwell. Dylai'r cyfarfod adolygu ffurfiol hefyd fod yn adolygiad o unrhyw gamau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod anffurfiol, lefelau presenoldeb ers yr adolygiad anffurfiol a/neu'r prognosis ar gyfer dychwelyd i'r gwaith.

Yn achos absenoldeb tymor hir oherwydd afiechyd neu anaf sy'n debygol o amharu'n barhaol ac yn sylweddol ar eu gallu i ennill, dylid ystyried cymhwysedd posibl ar gyfer ymddeol oherwydd afiechyd. Bydd hyn yn dibynnu ar delerau cymhwysedd y trefniant pensiwn perthnasol y gall y gweithiwr fod yn aelod ohono. Ar gyfer gweithwyr sy'n aelodau gweithredol o Gynllun Pensiwn y BBC, dylid comisiynu asesiad meddygol annibynnol o gymhwysedd trwy iechyd galwedigaethol. Ar gyfer trefniadau pensiwn eraill y BBC, dylid cyfeirio'r gweithiwr at ei ddarparwr pensiwn.

Canlyniadau posibl cyfarfod adolygu ffurfiol yw:

- Mewn achosion o absenoldeb ysbeidiol tymor byr a hirdymor, gall y rheolwr ohirio a/neu ymestyn cyfnod adolygu ffurfiol cyn ailymgynnull ar gyfer cyfarfod adolygu ffurfiol pellach. Gall hyn fod yn briodol yn arbennig os yw'r camau y cytunwyd arnynt yn y cam adolygu anffurfiol yn parhau i fod heb eu cyflawni; a/neu bu newid mewn amgylchiadau a allai effeithio ar lefelau presenoldeb y gweithiwr; a/neu mae angen cyngor wedi'i ddiweddarau gan y gwasanaeth iechyd galwedigaethol; a/neu mae prognosis positif ar gyfer dychwelyd i'r gwaith.
- Mewn achosion o absenoldeb ysbeidiol tymor byr, gall y rheolwr ystyried nad oes gwelliant annigonol wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod adolygu. Yna gall y rheolwr ystyried ei bod yn briodol cael cyfnod adolygu pellach neu gynnull gwrandawriad ffurfiol gyda'r gweithiwr fel y nodir isod.

Mewn achosion o absenoldeb salwch hirdymor lle mae'r prognosis ar gyfer dychwelyd yn cael ei ystyried yn wael neu'n aneglur gan Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol y BBC, a/neu mae asesiad meddygol annibynnol yn nodi bod y gweithiwr yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ymddeoliad afiechyd o dan y cynllun pensiwn perthnasol, gall y rheolwr hysbysu'r aelod staff y bydd gwrandawriad ffurfiol yn cael ei gynnull fel y nodir isod.

Gwrandawriad Ffurfiol

Os na fydd gwelliant digonol ar ôl yr adolygiad ffurfiol, bydd y rheolwr yn trefnu gwrandawriad ffurfiol i ystyried cynaliadwyedd parhaus unrhyw absenoldeb hirdymor neu absenoldeb salwch ysbeidiol tymor byr parhaus. Rhoddir gwybod i'r gweithiwr ymlaen llaw am y rhesymau dros y gwrandawriad ac y gallai canlyniad y gwrandawriad arwain at derfynu ei gyflogaeth. Bydd y gweithiwr yn cael unrhyw ddogfennau a thystiolaeth y bydd y rheolwr yn eu hystyried yn ystod proses y gwrandawriad.

Dylai gweithwyr gymryd pob cam rhesymol i fynychu'r cyfarfod. Mae gan y gweithiwr yr hawl i gael cynrychiolydd undeb llafur achrededig neu gydweithiwr yn y BBC (ac eithrio cyfreithiwr wrth ei waith) i ddod gydag ef i'r cyfarfod.

Caniateir i'r gweithiwr gael digon o rybudd o'r cyfarfod i gael amser i gysylltu a rhoi briff i gynrychiolydd achrededig neu gydweithiwr yn y BBC, yn ogystal â chael cofnodion meddygol perthnasol a allai fod o fudd i'r gwrandawriad.

Gall y rheolwr drefnu cofnodydd i gymryd nodiadau cryno o'r cyfarfod. Anfonir copi o'r nodiadau cryno at y gweithiwr a'i gynrychiolydd (os yw'n briodol) i gael sylwadau. Ar yr amod y ceir sylwadau o fewn amserlen resymol, fel y'u diffinnir gan reolwr y gwrandawriad, cânt eu cadw gyda'r nodiadau gwreiddiol o'r cyfarfod.

Dylai'r rheolwr ystyried materion fel y canlynol yn ystod y cyfarfod (nid ydynt yn gynhwysfawr):

- Y cyngor meddygol gan gynnwys prognosis y gweithiwr ac unrhyw argymhellion, ac a oes angen cyngor pellach;
- yr effaith y mae'r cyflwr meddygol a/neu absenoldebau'r gweithiwr yn ei chael ar berfformiad y gweithiwr yn ei rôl bresennol;
- yr effaith y mae absenoldebau'r gweithiwr yn ei chael ar y busnes; a'r
- addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud i alluogi eu bod yn dychwelyd i'r gwaith.

Cyn i reolwr y gwrandawriad wneud unrhyw benderfyniad, dylid ystyried a ddylid gwneud unrhyw addasiad rhesymol i ganlyniad y cam hwn o'r broses, er enghraifft, a ddylid ymestyn y broses ei hun yn rhesymol trwy ychwanegu cyfarfod adolygu ffurfiol pellach, lle mae'r absenoldeb dan sylw mewn perthynas ag anabled.

Canlyniadau posibl y gwrandawriad ffurfiol yw:

- gwneud addasiadau rhesymol pellach i amodau gwaith swydd bresennol y gweithiwr;
- gweithredu cynllun adfer pellach;
- chwilio am gyflogaeth amgen addas o fewn y BBC;
- gall rheolwr y gwrandawriad benderfynu gohirio'r gwrandawriad ac ailymgynnull yn ddiweddarach os oes angen ymchwilio ymhellach cyn y gellir dod i benderfyniad;

Pan fo gweithiwr wedi'i hysbysu yn y gorffennol y gallai ei gyflogaeth fod mewn perygl os bydd yr absenoldeb yn parhau, gall y rheolwr hefyd ystyried:

- derfynu cyflogaeth ar sail ymddeoliad afiechyd yn amodol ar rybudd cytundebol; neu

terfynu'r gyflogaeth ar sail anallu'r gweithiwr i gyflawni'r swydd a/neu lefelau absenoldeb/presenoldeb parhaus yn amodol ar rybudd cytundebol.

Fel rheol, dim ond ar sail analluogrwydd meddygol a/neu lefelau absenoldeb parhaus a/neu bresenoldeb y gweithiwr y bydd cyflogaeth gweithiwr yn cael ei therfynu, os na ellir gwneud addasiadau rhesymol i'r amgylchedd gwaith neu os na ellir dod o hyd i gyflogaeth amgen addas o fewn cyfnod rhesymol. Rhaid i reolwr y gwrandawriad ofyn am gyngor gan Gyngor i Reolwyr cyn dod â chyflogaeth i ben ar y seiliau hyn.

Pan fydd swydd yn cael ei therfynu, gall pensiwn analluogrwydd fod yn berthnasol ar y sail na all unigolyn gyflawni ei alwedigaeth arferol ac mae hyn yn debygol o amharu'n barhaol ac yn sylweddol ar ei allu i ennill.

Pan nad yw taliadau pensiwn o'r fath yn berthnasol, gall y rheolwr, ar y cyd â'r Partner Busnes AD, ystyried a yw'n briodol gwneud taliad ex gratia i'r gweithiwr ar sail afiechyd.

Bydd y rheolwr yn hysbysu'r gweithiwr o'i benderfyniad yn ysgrifenedig ar ôl y cyfarfod. Mae gan y gweithiwr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Bydd pob apel yn cael ei chynnal yn unol â **Pholisi Apeliadau'r BBC**.

Polisiâu a Dogfennau Cysylltiedig:

- Strategaeth Lles y BBC
- Canllaw'r BBC i Gefnogi, Cadw a Recriwtio Staff Anabl
- Llawlyfr Diogelu Data'r BBC
- Canllaw i Atgyfeiriadau Iechyd Galwedigaethol
- Polisi Apeliadau'r BBC

15. Atodiad 1 Archwiliadau meddygol ac atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol

Fel y nodir yn yr egwyddorion uchod, mae archwiliadau meddygol ac atgyfeiriadau i wasanaeth lechyd Galwedigaethol y BBC yn fesurau rhagweithiol i gefnogi lles staff a lefelau uchel o bresenoldeb.

Mae'r rhesymau dros atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn cynnwys, ond nid wedi'u cyfyngu, i geisio cyngor meddygol annibynnol ar y canlynol;

- cefnogi lles cyffredinol a lefelau presenoldeb derbynol
- ffitrwydd i fynychu a gwneud gwaith
- y gallu i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol, ac yn achos anabledau, i gael cyngor ar ba addasiadau rhesymol y gall y rheolwr ystyried eu rhoi
- y prognosis hirdymor ar gyfer dychwelyd i'r gwaith a phresenoldeb parhaus yn y gwaith
- risgiau iechyd a diogelwch
- rolau sydd â gofynion meddygol neu wylidwriaeth iechyd arbennig
- cynigiwyd rôl iddynt dramor
- Gweithio yn y nos o dan *Reoliadau Amser Gwaith 1998*

Os bydd gweithiwr yn dewis peidio â mynychu archwiliad neu ymgynghoriad, bydd y BBC yn gwneud penderfyniadau ac yn rheoli presenoldeb fel y nodir yn y polisi hwn ar y wybodaeth sydd ar gael, a allai effeithio yn y pen draw ar gyflogaeth barhaus aelodau staff.

Rhaid i'r rheolwr esbonio'r rheswm dros yr atgyfeiriad a'r trefniadau ar gyfer yr archwiliad(au) i'r unigolyn.

Bydd gweithwyr yn cael cynnig cyfle i weld adroddiad Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol y BBC a baratowyd arnynt, cyn iddo gael ei anfon at y rheolwr.

Os oes angen, gofynnir i'r gweithiwr roi caniatâd i Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol y BBC ymgynghori â'u meddyg eu hunain, a dylai'r gweithiwr ymateb i gais o'r fath heb oedi afresymol. Bydd unrhyw adroddiad meddygol a anfonir gan eu meddyg yn cael ei ddarparu yn unol â'r ddeddfwriaeth *Mynediad at Adroddiadau Meddygol*.

Mae'r weithdrefn lawn ar gyfer atgyfeirio i'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol wedi'i nodi ar [Gateway](#).